Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Mes Bach
# Ysgol Dyffryn Trannon
# Trefeglwys
# Caersws
# Powys
# SY17 5PH

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Mes Bach, sydd yn cwrdd mewn ystafell ddosbarth yn Ysgol Dyffryn Trannon, Trefeglwys, yn awdurdod lleol Powys. Newidodd y lleoliad i un cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2016 yn dilyn cyfnod fel lleoliad cyfrwng Saesneg 'Little Acorns'. Mae'r lleoliad ar agor am bum sesiwn yr wythnos, rhwng 9.15 y bore a 11.45 y bore.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 14 plentyn ar unrhyw adeg benodol, ac mae'r lleoliad yn darparu addysg ar gyfer plant sydd yn dair a phedair oed. Mae pob un plentyn yn y lleoliad wedi eu hariannu i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae bron pob un o'r plant o gefndir gwyn Prydeinig ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri aelod o staff. Dechreuodd un arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2016 a'r llall ym mis Medi 2017.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ionawr 2015, pan oedd y ddarpariaeth o dan yr enw 'Little Acorns'. Saesneg oedd y brif iaith pan arolygodd Estyn 'Little Acorns' ym mis Mehefin 2011.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- rhan fwyaf y plant yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg cychwynnol yn briodol ac yn fuan ar ôl fynychu'r lleoliad
- bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau corfforol a chreadigol yn llwyddiannus
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais iawn
- ymarferwyr yn gwrando ar syniadau'r plant yn synhwyrol, sy'n ychwanegu'n bositif at eu brwdfrydedd dyddiol
- ymarferwyr yn creu amgylchedd diddorol a myfyriol trwy ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i'r plant feddwl, trafod teimladau a dweud diolch

Fodd bynnag:

- nid yw'r cynllunio yn sicrhau cyfleoedd cyson i herio'r plant ac i dargedu'r camau nesaf yn eu dysgu'n effeithiol
- nid yw'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant
- nid yw'r addysgu yn herio unigolion a grwpiau penodol o blant yn bwrpasol
- nid yw'r holl ymarferwyr yn cofnodi'r asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson
- nid oes cyfleoedd cadarn yn bodoli i'r plant ddysgu am ddiwylliannau eraill y byd

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- arweinwyr wedi dechrau defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth
- cefnogaeth ddiweddar yr ysgol yn dechrau llywio cyfeiriad pwrpasol i arferion y lleoliad
- penderfyniadau gonest a meddylgar yr arweinwyr yn targedu hyfforddiant perthnasol
- aelodau o'r corff llywodraethol a'r unigolyn cofrestredig newydd yn dechrau arfarnu'r ddarpariaeth a chyfrifoldebau'r staff yn well
- defnydd effeithiol o gyllid y lleoliad yn gwella ansawdd y ddarpariaeth
- yr ystod o bartneriaethau strategol defnyddiol sy'n gweithio'n bwrpasol i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant

Fodd bynnag:

- mae anghysondeb wedi bodoli gyda'r arweinyddiaeth ers newid y lleoliad i un cyfrwng Cymraeg
- mae rôl y llywodraethwyr o ran monitro, herio a chefnogi'r lleoliad heb ddatblygu'n briodol
- mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn newydd a heb wreiddio eto
- nid yw'r arweinwyr wedi cael digon o amser i ymgorffori'r arferion hunanarfarnu yn llawn ym mywyd y lleoliad
- nid yw'r systemau rheoli perfformiad yn eu lle

## Argymhellion

A1 Gwella cynllunio i sicrhau dilyniant a pharhad yn y gweithgareddau a'r profiadau dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i'r plant ddysgu am eu cymuned a'r byd ehangach

A2 Herio plant unigol yn unol â'u galluoedd

A3 Sicrhau bod asesiadau yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio bwriadus a'r camau nesaf yn nysgu'r plant

A4 Sicrhau bod arferion monitro a gwerthuso'r llywodraethwyr yn drylwyr a chadarn

A5 Cryfhau'r gweithdrefnau hunanarfarnu i sicrhau eu bod nhw'n effeithio'n gadarnhaol ar gyfeiriad strategol y lleoliad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn gyffredinol, ac ar draws y meysydd dysgu, mae mannau cychwyn y rhan fwyaf o blant yn debyg i neu'n uwch na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn gweithio gyda'i gilydd ac oedolion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol.

Ychydig iawn o'r plant sy'n cychwyn yn y lleoliad â medrau cyfathrebu Cymraeg, sy'n cyfateb i'r safon a ddisgwylir am eu hoed. Fodd bynnag, yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd pwrpasol ac yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg cychwynnol yn briodol a buan.

Mae llawer o'r plant yn dechrau defnyddio geiriau penodol, patrymau iaith syml ac ymadroddion yn ddefnyddiol wrth chwarae'n anffurfiol ac yn ystod tasgau ffocws, heb lawer o anogaeth gan oedolion. Maent yn ymateb yn ddeallus i holi gan yr ymarferwyr yn ystod sesiynau torfol wrth iddynt drafod y tywydd. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn datblygu eu defnydd dyddiol o'r Gymraeg yn effeithiol. Maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn naturiol a hyderus i gyfarwyddiadau yn y Gymraeg wrth ddawnsio yn y neuadd ac wrth goginio'n ddiwyd yn y gegin fwd. Mae llawer ohonynt yn ymateb i hwiangerddi a chaneuon yn y Gymraeg yn frwdfrydig.

Mae llawer o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn trafod ac esbonio'r lluniau yn ddeallus. Maent yn ymateb i bwrpas yr ysgrifen yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn trafod nodweddion anifeiliaid cyfarwydd a thrafod sawl coes a braich sydd ganddynt yn fedrus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y plant yn trin a thrafod llyfrau yn yr ardal ddarllen fel darllenwyr cynnar a hyderus. Maent yn cysylltu gweithredoedd ag emosiynau yn gywir, fel ystyried teimladau anifeiliaid wrth iddynt gwrdd ag anghenfil yn y goedwig.

Mae rhan fwyaf y plant yn creu marciau yn llwyddiannus wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent yn dyfalbarhau â chymhelliant gyda'u profiadau ysgrifennu cynnar. Er enghraifft, maent yn defnyddio amrywiaeth o offer fel sialc, ysgrifbinnau lliw a phaent yn effeithiol i greu enfys. Mae llawer ohonynt yn esbonio pwrpas ysgrifennu yn y cyd-destun cywir, fel defnyddio creonau i gofnodi manylion y claf yn y feddygfa ac i gymryd enwau cleifion ar ôl galwadau ffôn. Mae llawer o blant yn adnabod eu henwau eu hunain yn rheolaidd wrth eistedd am fyrbryd, gydag ychydig ohonynt yn dechrau adnabod enwau plant eraill yn gywir.

Mae rhan fwyaf y plant yn cyfrif rhifau i 10 gyda chymorth oedolyn yn hyderus. Mae ychydig o'r plant yn dechrau adnabod ac enwi rhifau hyd at bump yn llwyddiannus, gydag anogaeth yr ymarferwyr. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn trafod a chymharu siapiau tri dimensiwn yn yr ardal adeiladu wrth greu tyrau, ac yn cyfatebu lluniau o wrthrychau gwahanol yn ystod gêm bingo.

Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio rhifau yn bwrpasol mewn gweithgareddau ymarferol. Maent yn casglu gwahanol fathau o bysgod mewn rhwydi o'r twb dŵr a'u

grwpio'n gywir. Maent hefyd yn llinellu ar siâp â rhif penodol yn effeithiol cyn mynd i'r neuadd. Yn ogystal, maent yn cyfrif nifer y môr ladron sydd ar long a'r anifeiliaid sydd yn y môr o gwmpas y llong yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y plant yn deall bod gwahaniaethau mewn cyfaint wrth bwyso dŵr mewn bwcedi ar dafol ac wrth lenwi bwcedi â thywod. Maent yn esbonio os yw'r gwrthrychau'n 'fawr' neu'n 'fach', 'trwm' neu'n 'ysgafn', a 'chyntaf' neu'n 'olaf' yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio eu medrau TGCh yn effeithiol. Maent yn defnyddio llechi electronig ac apiau Cymraeg yn hyderus. Maent yn rheoli chwaraeydd cryno ddisgiau i wrando ar gerddoriaeth yn feddylgar a rhannu teganau electronig a gliniadur mewn gweithgareddau ffocws ac wrth chwarae rôl. O ganlyniad, mae eu defnydd o feddalwedd a chaledwedd addysgol yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth yn astud ac yn perfformio'n frwdfrydig wrth symud i rythmau gwahanol. Maent yn datblygu eu medrau corfforol yn dda wrth yrru beiciau a cherbydau'n fywiog a dawnsio a gwneud ystumiau yn neuadd yr ysgol. Mae bron pob un o'r plant yn dewis offer a deunyddiau yn effeithiol i ddatrys problemau ymarferol. Er enghraifft, maent yn defnyddio glud i weithio'n greadigol i greu wyneb cadno a chorff draenog allan o ddail, ar ôl helfa'r hydref ar dir yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n gyfforddus ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad. Maent yn dangos diddordeb pwrpasol tuag at weithgareddau amrywiol dan do a thu allan ac yn canolbwyntio'n frwd ar eu dysgu.

Mae bron pob un plentyn yn mwynhau'r tasgau ym mhob maes dysgu ac yn rhannu a gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. O ganlyniad, maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, fel arbrofi â rhidyll yn y pridd a llifo dŵr drwy gyfres o gafnau a phibellau.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais iawn. Maent yn dangos parch wrth ymateb yn gyfrifol i oedolion a'i gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n ofalus ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn gwisgo eu cotiau i chwarae yn yr awyr agored ac wrth eistedd i wrando ar newyddion ei gilydd am dywydd stormus y noson gynt. Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae blêr ac anniben a gweithgareddau awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb ormod o anogaeth gan ymarferwyr. Maent yn deall yn glir fod glendid yn bwysig i gynnal bywyd iachus.

Mae rhan fwyaf y plant yn dechrau mynegi barn a'u hoffterau personol yn synhwyrol. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn parhau â thasgau penodol fel trafod cymeriadau ar long môr ladron neu ddechrau gweithgareddau newydd o'u dewis eu hunain yn y feddygfa chwarae rôl. Maent yn ddysgwyr hyderus ac yn gweithio'n annibynnol ac effeithiol yn ystod gweithgareddau chwarae. Mae hyn yn amlwg pan fydd y rhan fwyaf ohonynt yn trafod yn feddylgar am ba ardaloedd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau. Maent yn hyderus wrth nodi pa dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt a'r ambell dasg sy'n anodd cwblhau a chofio, fel hwiangerdd yn y Gymraeg.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu priodol, sydd, yn gyffredinol, yn diwallu anghenion a diddordebau'r plant yn effeithlon. Maent yn cymell y plant i ddysgu yn effeithiol trwy gynnig profiadau newydd ac ymarferol iddynt dan do ac yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn addas.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd priodol i'r plant leisio eu syniadau personol i ddatblygu'r gweithgareddau ymhellach. Mae gwrando ar syniadau'r plant yn ychwanegu'n bositif at eu brwdfrydedd dyddiol. Enghraifft o hyn yw'r cyfleoedd i chwarae rôl yn y feddygfa ac ymchwilio i nodweddion arbennig y gwahanol dymhorau, fel casglu dail ar dir yr ysgol.

Er bod rolau newydd gan ymarferwyr, mae'r tîm yn cydweithio'n llwyddiannus i wella ansawdd y gweithgareddau ac maent yn cymell y plant i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Er enghraifft, maent yn annog plant i ddewis llyfrau i drafod yn y gornel ddarllen a defnyddio sosbenni fel offerynnau cerddorol tu allan. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn sicrhau cyfleoedd cyson i herio'r plant ac i dargedu'r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn colli cyfleoedd i ddiwallu anghenion unigolion a grwpiau penodol o blant ac ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ymhellach.

Ar y cyfan, mae'r lleoliad yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau meddwl, llythrennedd a rhifedd y plant yn briodol. Mae gweithgareddau llythrennedd a rhifedd ar gael ym mhob maes dysgu ac yn diwallu anghenion unigolion yn addas. Enghreifftiau ymarferol o hyn yw'r cyfleoedd buddiol i blant greu siapiau a marciau â sialc ac i sgriblo ar bapur meddyg gyda phensil yn annibynnol. Maent yn cydweithio i wacáu bwcedi â thywod a llenwi cyfarpar y gegin â phridd yn yr ardal allanol yn hyderus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn bwrpasol. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd da i'r plant ddefnyddio ystod o offer fel camerâu, chwaraeydd cryno ddisg, gliniadur, llechi a theganau electronig. Mae pob ymarferwr yn herio plant yn effeithiol, gan ddefnyddio meddalwedd addysgol yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau corfforol y plant. Mae cyfleoedd cyson iddynt yrru beiciau a cherbydau'n fywiog tu allan ac i ddawnsio'n frwdfrydig yn neuadd yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau corfforol rhan fwyaf y plant.

Mae'r lleoliad yn ymuno ag ambell weithgaredd yn yr ysgol yn achlysurol. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant, nac yn eu dysgu'n effeithiol am eu milltir sgwâr.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn fuddiol i'r plant. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant o'r iaith yn datblygu'n dda. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, pobi cacennau traddodiadol a choginio cawl.

**Addysgu: Digonol**

Mae’r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cyfnod sylfaen. Maent yn cydweithio’n effeithiol ac yn cynllunio gweithgareddau ysgogol sy’n bodloni anghenion bron pob disgybl yn addas. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol a diogel. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus ym mhob gweithgaredd.

Yn gyffredinol, mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau priodol ar gyfer pob plentyn. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd ym mhrofiadau a chwarae’r plant er mwyn eu cymell i lwyddo. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod diddordeb y plant yn gyson â’u hawydd i lwyddo mewn tasgau yn bwrpasol. Gwelir hyn wrth i blant ddyfalbarhau i adeiladu tŵr allan o siapiau tri dimensiwn a thrafod nodweddion creaduriaid y môr yn yr ardal byd bach. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro’n herio grwpiau o blant ac unigolion yn unol â’u gallu yn ddigon effeithiol.

Mae’r defnydd o’r Gymraeg gan ymarferwyr yn gyson. Mae hyn yn effeithio ar ddefnydd a chywirdeb y plant yn dda, wrth iddynt feistroli geirfa ac ymadroddion syml.

Mae’r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn dechrau gwreiddio yng ngwaith dyddiol y lleoliad. Mae’r asesiadau cychwynnol yn cyfatebu’n gywir i ddeilliannau proffil y cyfnod sylfaen ac maent, ar y cyfan, yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, nid yw’r holl ymarferwyr yn cofnodi’r asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Er eu bod nhw’n trafod gyda’r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith yn synhwyrol, nid ydynt yn gwbl sicr o’r camau nesaf yn nysgu’r plant. O ganlyniad, ni ddefnyddir asesiadau i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn ddigon effeithiol.

Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant. Mae’r ddeialog ddyddiol rhwng yr ymarferwyr a’r rhieni a gofalwyr yn atgyfnerthu hyn yn effeithiol. Ar ddiwedd amser y plant yn y lleoliad, mae adroddiad priodol ar gael i rieni a gofalwyr, sy’n adlewyrchu’r cynnydd ym medrau’r plant yn y meysydd dysgu yn glir.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r lleoliad yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. Mae’r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol, fel amser byrbryd, i feithrin y gwerthoedd hyn yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un o’r plant yn ystyried teimladau cyfoedion yn ddeallus, yn cydweithio’n deg ac yn parchu eraill. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd cadarn yn bodoli i’r plant ddysgu am ddiwylliannau eraill ein byd.

Mae’r ymarferwyr yn creu amgylchedd myfyriol wrth ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i blant feddwl, trafod teimladau a dweud diolch. O ganlyniad, mae’r plant yn cymryd eu tro’n gwrtais wrth iddynt olchi dwylo, arllwys diod o jygiau a gosod y byrddau fel helpwr y dydd. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn ystod amser byrbryd.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant ac mae’r lleoliad yn gweithredu systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn dyner iawn wrth ddelio ag unigolion pryderus yn neuadd yr ysgol yn ystod sesiynau dawns.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod yr holl blant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn a nwyddau plastig. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae’r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, ac mae hyn yn dileu unrhyw fath o aflonyddu a chamymddwyn. Mae’r lleoliad yn amgylchedd diogel ac yn dilyn canllawiau’r ysgol ar ddiogelwch yn drwyadl. Mae’r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn briodol pan fyddant yn ymuno â’r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen. Mae ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda’r asiantaethau cefnogi, pan mae’r angen yn codi, i dargedu eu hanghenion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth addas o anghenion y plant. Maent yn sicrhau bod y lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol. O ganlyniad, mae’r holl blant yn cael cyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol. Mae ymarferwyr yn cefnogi plant yn ddyddiol mewn modd cadarnhaol a gofalus.

Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo ethos positif drwy eu gweithgareddau pob dydd a’u hagweddau brwdfrydig. Maent yn pwysleisio bod pawb yn wahanol a bod parch at eraill yn bwysig.

Mae’r lleoliad yn defnyddio adnoddau’n bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod o adnoddau diddorol eu defnyddio’n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws ac i gyfoethogi’r dysgu. Mae’r adnoddau yn cael eu cadw ar lefel ymarferol i bob un o’r plant eu cyrraedd. Mae hyn yn galluogi’r plant i’w hestyn a’u rhoi yn ôl ac yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau’r plant yn llwyddiannus.

Mae’r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn briodol ac mae’n ddiogel. Mae’r ardal allanol yn cynnwys ardaloedd i dyfu a phlannu, cyfarpar i chwarae’n fywiog ac ardaloedd tawel i eistedd a myfyrio. Mae’r lleoliad yn defnyddio’r ardaloedd hyn yn greadigol i ymchwilio yn y gwair ac adeiladu wal friciau. Defnyddir neuadd yr ysgol yn synhwyrol ar gyfer cyflwyno gweithgareddau bywiog dan do. Mae’r ymarferwyr hefyd yn defnyddio tir yr ysgol yn bwrpasol, drwy fynd â’r plant ar helfeydd sy’n ymwneud â’r tymhorau.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae rhywfaint o anghysondeb wedi bodoli gyda'r arweinyddiaeth ers newid y lleoliad i un cyfrwng Cymraeg tua blwyddyn yn ôl. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn rhannu'r cyfrifoldeb o redeg y lleoliad rhyngddynt yn ystod yr wythnos. Gyda chefnogaeth barod a diweddar yr ysgol, maent yn dechrau llywio cyfeiriad pwrpasol i arferion y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys mireinio gweithdrefnau'r lleoliad, fel y cyswllt â'r llywodraethwyr, i hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn effeithiol. Mae eu gweledigaeth yn dechrau gwella'r rheolaeth, y cynllunio, yr addysgu a'r asesu yn briodol.

Mae amcanion, cynlluniau gwella a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth yn drwyadl. Ar y cyfan, mae hyn yn bodloni anghenion gofal a lles y plant yn dda ac yn hyrwyddo eu cyflawniadau'n llwyddiannus. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n gydwybodol gyda chydweithwraig ymroddgar, sy'n newydd i'w rôl, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu gwaith dyddiol. Llwyddant i gymell y plant i wella'n gyson mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol o fannau cychwyn cadarn.

Yn ddiweddar, mae'r arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad, trwy systemau meintiol yr awdurdod lleol, i wella'r ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys gwell ddefnydd o broffil y cyfnod sylfaen i adnabod mannau cychwyn y plant yn gywir ynghyd â mireinio'r cynllunio i ystyried diddordebau'r plant. Mae eu penderfyniadau gonest a meddylgar am eu rolau hwy yn gywir ac yn adnabod y mannau i'w gwella a'u hanghenion ar gyfer hyfforddiant yn drylwyr.

Mae'r arweinwyr yn ffocysu ar gynnig gweithgareddau pwrpasol i'r plant. Maent wedi creu newidiadau buddiol i'r ardaloedd dysgu, tu mewn i'r adeilad a thu allan, i gymell y plant i weithio'n ddiwyd. Maent hefyd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol yn addas, fel datblygu gweithdrefnau llythrennedd, rhifedd a TGCh, i wella medrau'r plant cyn iddynt ddechrau'r ysgol.

Mae'r arweinyddiaeth yn cynnwys llywodraethwyr yr ysgol. Mae rôl y llywodraethwyr o ran monitro, herio a chefnogi'r lleoliad heb ddatblygu'n briodol dros nifer o flynyddoedd. Yn ddiweddar, mae aelodau o'r corff llywodraethol a'r unigolyn cofrestredig newydd yn dechrau arfarnu deilliannau'r plant, y ddarpariaeth a chyfrifoldebau'r staff yn well. O ganlyniad, mae'r monitro a'r trafodaethau buddiol, sy'n bodoli erbyn nawr, yn sicrhau bod pawb yn gweithio'n effeithiol fel tîm.

Mae'r llywodraethwyr a'r unigolyn cofrestredig wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar y targedau sy'n deillio o'r prosesau hunanarfarnu yn drylwyr. Trwy gyfarfodydd rheolaidd yn ddiweddar, maent yn derbyn gwybodaeth berthnasol am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinwyr. O ganlyniad, mae'r tîm arweinyddiaeth newydd yn ymroddgar ac yn gwneud gwelliannau amlwg i'r ddarpariaeth a'r prosesau rheoli.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan arweinwyr ddeallwriaeth briodol o gryfderau'r lleoliad a'r rhan fwyaf o'r meysydd y mae angen eu gwella. Gyda chefnogaeth ddiweddar y llywodraethwyr a'r

unigolyn cofrestredig, maent wedi sefydlu trefniadau newydd a gwerthfawr i fonitro safonau plant a'r ddarpariaeth ddyddiol. Mae'r cydweithio effeithiol a'r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd, ynghyd â'r arfer newydd o gyfarfod fel staff, yn cyfrannu at yr arferion hyn yn bwrpasol.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a rheolaidd am y lleoliad i sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth, er enghraifft drwy wella'r defnydd o weithdrefnau asesu. Mae'r broses hunanarfarnu yn ystyried safbwyntiau rhieni, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn briodol. Fodd bynnag, mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn newydd a heb wreiddio eto. O ganlyniad, nid yw'r arweinwyr wedi cael digon o amser i ymgorffori'r arferion hunanarfarnu yn llawn ym mywyd y lleoliad o ddydd i ddydd. Nid ydynt, felly, yn effeithio ar wella'r ddarpariaeth.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun clir o gryfderau'r lleoliad a'r rhan fwyaf o feysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad yn gywir ac yn targedu anghenion y lleoliad yn effeithiol. Mae gonestrwydd yn perthyn i'w fanylder ac mae'n cynnwys digon o fanylion ynglŷn â sut a pham mae angen gwella y meysydd priodol ymhellach.

Mae'r arweinwyr yn gosod targedau priodol yn erbyn graddfeydd amser addas ac maent yn eu blaenoriaethu yn synhwyrol. Maent, gyda chytundeb y llywodraethwyr, yn dyrannu cyllid addas i fodloni'r targedau. Mae'r targedau yn y cynllun gwella yn deillio'n uniongyrchol o hunanarfarniad y lleoliad, sy'n nodwedd gadarnhaol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol defnyddiol. Mae'n gweithio'n bwrpasol gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae'r lleoliad yn cwrdd ar safle'r ysgol ac, yn ddiweddar, mae'r cyswllt â'r ysgol yn gadarnhaol. Mae aelodau o staff yr ysgol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd ac mae'r plant yn rhannu adnoddau'r cyfnod sylfaen yn ddyddiol. Mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio'r plant yn effeithiol ac mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau'r plant yn effeithlon.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad, sy'n cynnwys nosweithiau agored. Mae ymarferwyr yn eu hysbysu'n rheolaidd, drwy gylchlythyron a chyfryngau cymdeithasol, am bob agwedd ar waith y lleoliad. Cânt eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson. Mae hyn wedi gwella'r cyfathrebu gyda'r rhieni a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol i drosglwyddo gwybodaeth am y lleoliad. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol yn rheolaidd. Mae hyn yn meithrin tynerwch a gofal am eraill ymhlith y plant.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi dogfennaeth a hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol. Yn ychwanegol, mae ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill sydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd a diogelu plant.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae’r arweinwyr, y llywodraethwyr a’r unigolyn cofrestredig wedi ymrwymo’n ddiweddar i ganolbwyntio’n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Gwneir hyn trwy ddefnyddio arbenigedd yn ddeallus a dyrannu adnoddau’n bwrpasol. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys, sydd wedi cael, neu’n derbyn, hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant yn well.

Mae’r arferion arwain wedi gwella’n sylweddol mewn amser byr, sydd erbyn hyn yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus.  O ganlyniad, sefydlwyd cymuned ddysgu fywiog, sy’n dechrau gwreiddio’r diwylliant o gydweithio effeithlon rhwng ymarferwyr a phartneriaid y lleoliad, fel yr ysgol.

Nid yw’r systemau rheoli perfformiad yn eu lle hyd yn hyn.  O ganlyniad, er bod gwelliannau yn digwydd yn ddiweddar, mae meysydd pwysig i’w gwella yn bodoli ynglŷn â’r profiadau dysgu a’r addysgu ac asesu.

Mae’r lleoliad yn rheoli adnoddau i gefnogi dysgu yn synhwyrol ac yn rhannu’r adnoddau’n greadigol gyda’r ysgol.  Mae hyn yn cynnwys newid cynllun yr ystafell a’r ardal allanol yn achlysurol i ysbrydoli’r plant wrth iddynt ymroi i wahanol themâu, fel y feddygfa a’r ardal adeiladu.

Mae’r arweinwyr yn defnyddio’r gyllideb a grantiau’n bwrpasol gyda chymorth yr ysgol a’r awdurdod lleol.  Maent yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r cynllun gwella yn addas a chreu gwelliannau cyson trwy drafod a blaenoriaethu cyllid penodol ar gyfer anghenion y lleoliad.  Enghraifft o hyn yw defnyddio’r cyfarpar TGCh newydd yn gyson ac effeithiol.

Er bod nifer o newidiadau a gwelliannau sylweddol newydd ddigwydd yn y lleoliad, mae’n darparu gwerth digonol am arian oherwydd y meysydd sydd i'w gwella yn y ddarpariaeth a’r gweithdrefnau arweinyddiaeth.

## Atodiad 1

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |